Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymweliadau cefnogol os oes angen help arnoch i wneud cais am fudd-daliadau

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **SV1WER** 11/25

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2



**Trefnu ymweliad**

Tudalen 4

3




**Beth sy’n digwydd pan gewch eich ymweliad**

Tudalen 7

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau

Os oes angen help ychwanegol arnoch i wneud cais am fudd-daliadau, efallai y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gallu ymweld â chi’n bersonol.



Os ydych yn gymwys i gael ymweliad, bydd DWP yn trefnu un i chi.

Ni allwch trefnu ymweliad eich hun.

# 2 Trefnu eich ymweliad



Gall ymweliadau fod yn:

- Eich cartref
- ysbytai
- cartrefi gofal

Neu un o'n mannau ymweld.

Gall sefydliad gwirfoddol fel cyngor ar bopeth neu Age UK hefyd eich cyfeirio am ymweliad.

## Efallai y byddwn yn trefnu ymweliad os:



- oes gennych anghenion cymhleth neu anabledd
- ydych yn berson ifanc sy'n agored i niwed ac yn gwneud cais am y tro cyntaf
- nad oes gennych unrhyw un arall i'ch cefnogi ac ni allwch wneud cais am fudd-dal ar eich pen eich hun.




Efallai y byddwn hefyd yn trefnu ymweliad os mae rhywun yn gwneud cais i'ch helpu i reoli eich budd-daliadau.

Rydym yn galw'r person hwn yn **benodai**.




Unwaith y bydd ymweliad wedi'i gytuno, bydd ein Tîm Ymweld yn eich ffonio i drefnu apwyntiad. Byddant yn dweud wrthych:

- y dyddiad
- amser
- lleoliad yr ymweliad.



Byddant hefyd yn dweud wrthych:

- pwy fydd yn ymweld
- pa ddogfennau sydd eu hangen arnoch
- y trefniadau diogelwch.




Ar ôl yr alwad ffôn, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn cadarnhau manylion yr ymweliad.




Byddwch hefyd yn cael neges destun yn cadarnhau'r apwyntiad, os gwnaethoch ddarparu eich rhif ffôn symudol.


# 3 Beth sy’n digwydd pan gewch eich ymweliad





Pan fydd y Swyddog Ymweld yn cyrraedd, byddant yn dangos eu cerdyn adnabod i chi.





Bydd yr enw ar eu cerdyn adnabod yr un fath â’r enw ar eich llythyr neu neges destun.




Gall hyd yr ymweliad amrywio yn dibynnu ar y wybodaeth sydd ei hangen.




Gall ymweliadau bara am 30 munud neu hyd at 2 awr.




Os oes angen i chi aildrefnu eich ymweliad, cysylltwch â'r Tîm Ymweld.

Bydd eu manylion cyswllt yn y llythyr a anfonwyd atoch.

Am fwy o wybodaeth am ymweliadau, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Support visits**.